# Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru ynghylch y ddyletswydd i gynnal cyfarfodydd gyda rhieni

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 104/2013
Dyddiad cyhoeddi: Mai 2013

# Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru ynghylch y ddyletswydd i gynnal cyfarfodydd gyda rhieni

**Cynulleidfa** Cyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru a rhieni disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion hynny.

**Trosolwg** Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â dyletswydd corff llywodraethu i gynnal cyfarfodydd rhieni o dan adran 94 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**Camau i'w cymryd** Mae'n ofynnol yn unol â'r gyfraith i gyrff llywodraethu ystyried y weithdrefn hon.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Llywodraethu a Threfniadaeth Ysgolion
Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6051
Ffacs: 029 2082 6109
e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig** I weld Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ewch i www.legislation.gov.uk/anaw/2013/1/contents/enacted

ISBN digidol 978 0 7504 9426 7
© Hawlfraint y Goron 2013
WG18575

# Cynnwys

**Rhagarweiniad**

**1. Gofynion statudol**

**2. Y broses o gyflwyno deiseb**

**3. Rhoi rhybudd am gyfarfodydd a sut i'w cynnal**

**4. Rhoi gwybod i rieni am eu hawl i gyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod o dan adran 94**

**Atodiad A: Canllaw i'r broses cyflwyno deiseb**

**Atodiad B: Eich hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol**

## Rhagarweiniad

i. Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn gan Weinidogion Cymru o dan adran 94(13) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("y Ddeddf") ar ôl ymgynghori â sampl o 10% o gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac unigolion yr oedd Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â nhw. Daw'r canllawiau i rym ar 4 Mai 2013.

ii. Mae'r canllawiau yn delio â'r trefniadau newydd o dan adran 94 o’r Ddeddf sy'n caniatáu i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod mewn blwyddyn ysgol gyda chorff llywodraethu ysgol eu plentyn. Mae'r trefniadau newydd hyn yn disodli'r gofyniad deddfwriaethol blaenorol i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni, oni bai bod y corff llywodraethu wedi'i esemptio rhag gorfod cynnal cyfarfodydd blynyddol o'r fath oherwydd darpariaethau Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005.

iii. Cyflwynwyd y trefniadau newydd hyn yn sgil tystiolaeth nad oedd rhieni, yn y rhan fwyaf o ysgolion, yn tueddu i fynd i'r cyfarfod blynyddol gyda'r corff llywodraethu. Yn aml, o'r nifer oedd yn bresennol, roedd mwy yn aelodau o'r corff llywodraethu nag oedd yn rhieni. Roedd yna deimlad nad oedd pwynt parhau i fynnu bod cyrff llywodraethu yn cynnal cyfarfodydd blynyddol gyda rhieni, gan ei bod yn amlwg mewn llawer o achosion nad oedd llawer o rieni yn mynd iddynt.

iv. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru yn dymuno sicrhau bod rhieni yn gallu dod i gysylltiad â chyrff llywodraethu ynghylch materion oedd o bwys iddynt. Mae'r trefniadau newydd yn golygu, yn hytrach na bod yn rhaid i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni, bod gan rieni'r hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu ar faterion sy'n destun pryder iddynt. Gall rhieni arfer yr hawl hon hyd at 3 gwaith yn ystod blwyddyn ysgol, cyn belled mai pwrpas y cyfarfodydd yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol, nid cynnydd a chyflawniad disgyblion unigol na chwynion ynghylch aelod o staff neu aelod o'r corff llywodraethu. Disgwylir i gyrff llywodraethu ysgolion sicrhau bod rhieni yn cael gwybod am eu hawl i gyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gan ddefnyddio adran 94 o’r Ddeddf, fel yr esbonnir yn Adran 4 o’r canllawiau hyn.

v. Nid yw’r trefniadau newydd yn newid nac yn cael gwared ag unrhyw ofynion deddfwriaethol eraill i gyrff llywodraethu gynnal cyfarfodydd eraill sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, megis cyfarfod i drafod adroddiad arolygiad ysgol o dan adran 28 o Ddeddf Addysg 2005. Yn yr un ffordd, nid yw'r trefniadau newydd yn newid y gofynion i gyrff llywodraethu ac ysgolion roi gwybodaeth i rieni am gynnydd eu plentyn. Er enghraifft, bydd cyrff llywodraethu yn dal i orfod llunio adroddiad blynyddol ar gyfer rhieni, a bydd penaethiaid yn dal i orfod rhoi gwybodaeth am gyflawniadau disgyblion unigol.

vi. Yn olaf, er bod y trefniadau newydd yn golygu nad oes angen, bellach, i gyrff llywodraethu gynnal cyfarfodydd blynyddol gyda rhieni, nid oes unrhyw beth i atal cyrff llywodraethu rhag parhau i gynnal y cyfarfodydd hyn os dymunant. Yn yr un modd, caiff cyrff llywodraethu barhau i alw cyfarfodydd gyda rheini os ydynt o'r farn bod angen trafod mater sy'n effeithio ar yr ysgol. Byddai hynny'n well nag aros i weld a fydd yn rhieni yn mynd ati i drefnu deiseb i ofyn am gyfarfod i drafod y mater.

## Pwrpas a statws y canllawiau

vii. Caiff y canllawiau hyn eu rhoi i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru fel canllawiau statudol y bydd yn rhaid i bob corff llywodraethu o'r fath roi ystyriaeth iddynt wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 94 o'r Ddeddf. Gallai peidio â dilyn y canllawiau hyn arwain at her gyfreithiol a bydd llys, wrth adolygu achos o'r fath, yn craffu ar y rhesymau pam na chawsant eu dilyn er mwyn gweld a oedd digon o gyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny o dan yr amgylchiadau. Mae'n arfer da i sicrhau bod tystiolaeth ddigonol i ategu'r rhesymau am beidio â'u dilyn.

viii. Yn ogystal â darparu canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu, mae'r canllawiau hyn hefyd yn rhoi gwybod i rieni pob disgybl sydd wedi'i gofrestru mewn ysgol yng Nghymru sut i arfer yr hawl i gyflwyno deiseb i gael cyfarfod gyda chorff llywodraethu ysgol eu plentyn. Fodd bynnag, barn swyddogion polisi Llywodraeth Cymru, yn hytrach na chyngor cyfreithiol, yw'r wybodaeth honno ac nid yw'n golygu na ddylai rhieni geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

## Cyflwyniad

ix. Drwy gydol y canllawiau, cyfeirir at Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 fel "y Ddeddf". Lle cyfeirir at ddarnau eraill o ddeddfwriaeth, nodir yr union Ddeddf neu'r Rheoliadau perthnasol yn glir.

x. Mae adran 94 o'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru i gynnal cyfarfodydd mewn ymateb i ddeiseb gan rieni. Mae'r canllawiau hyn yn darparu'r egwyddorion ynghylch sut dylid rhoi'r ddyletswydd honno ar waith yn ymarferol.

xi. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn rhoi cyd-destun ac arweiniad cadarnhaol i gyrff llywodraethu wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau o dan adran 94. Maent hefyd yn esbonio materion fel:

- sut gall rhieni fynd ati i lunio deiseb i gael cyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol;
- y materion sy'n gallu bod yn rheswm dros gyfarfod o'r fath;
- yr hyn y gall rhieni ei ddisgwyl o ran cael rhybudd ffurfiol am gyfarfod, unwaith y bydd deiseb gymwys wedi'i chyflwyno i'r corff llywodraethu.

## Termau a ddefnyddir yn y canllawiau hyn

xii. Ystyr y term 'disgybl' yw'r ystyr a roddir i 'pupil' yn adran 3 o Ddeddf Addysg 1996. Mae'r term hwn yn golygu unigolyn y mae ysgol yn darparu addysg ar ei gyfer, ond nid yw'n cynnwys unigolyn

- sydd wedi cyrraedd 19 oed ac sy'n dilyn addysg bellach; nac
- sydd dros yr oedran pan yw'n orfodol mynd i'r ysgol ac sy'n dilyn addysg ran-amser sy'n addas i'r oedran hwnnw.

xiii. Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio'n gyson at y term 'rhiant'. Mae ystyr 'rhiant' yn y canllawiau hyn yr un fath â 'parent' yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996, sy'n cynnwys y canlynol yn y diffiniad:

- pob rhiant naturiol, boed wedi priodi ai peidio;
- unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn er nad yw'n rhiant naturiol;
- unrhyw un sy'n gofalu am blentyn nad oes ganddo gyfrifoldeb rhiant neu nad yw'n rhiant naturiol.

xiv. Mae cyngor am sut i gymhwyso adran 576 wrth benderfynu pwy sy'n rhiant i'w weld yng Nghylchlythyr 12/2007 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae copïau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/parents-parental-responsibility?skip=1&lang=cy

xv. At ddibenion y canllawiau hyn, mae disgwyl i gyrff llywodraethu fod yn gyfarwydd â'r cyngor hwn, a'u bod yn gallu asesu a yw unigolyn yn rhiant i ddisgybl sydd wedi'i gofrestru gyda'u hysgol pan fyddant yn derbyn y ddeiseb gan rieni yn gofyn am gyfarfod.

xvii. Diffinnir y term 'diwrnod ysgol' ('school day') yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996 i olygu unrhyw ddiwrnod yn yr ysgol pan fo sesiwn ysgol. Yn ymarferol mae hyn yn golygu diwrnod pan fydd yn rhaid i athro sydd wedi'i gyflogi'n llawnamser yn yr ysgol fod ar gael i addysgu a chyflawni dyletswyddau eraill. Nid yw'n cynnwys diwrnodau pan mai dim ond dyletswyddau eraill y bydd yn ofynnol i athro o'r fath eu cyflawni. Nid yw 'diwrnod ysgol', felly, yn cynnwys penwythnosau, gwyliau banc/cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau hyfforddiant mewn swydd.

# 1. Gofynion statudol

1.1 Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau ar y pedwar gofyniad statudol y mae'n rhaid i gyrff llywodraethu eu bodloni eu hunain eu bod wedi cydymffurfio â nhw cyn y bydd yn rhaid cynnal cyfarfod o dan adran 94 o’r Ddeddf. Dylid ystyried pob adran o'r canllawiau yng ngoleuni'r gofynion hyn.

1.2 Credir na fydd angen i gorff llywodraethu alw cyfarfod er mwyn asesu a fodlonwyd y gofynion statudol ai peidio. Gellid dirprwyo’r gwaith hwnnw i lywodraethwr neu lywodraethwyr penodol.

### I. Rhaid i'r ddeiseb yn galw am gyfarfod gynnwys llofnodion y nifer gofynnol o rieni disgyblion cofrestredig

1.3 Mae adran 94(2) a 94(3) o’r Ddeddf yn darparu, yn achos pob ysgol, bod yn rhaid i’r ddeiseb gael ei llofnodi gan y nifer gofynnol o rieni sydd â disgyblion wedi’u cofrestru yn yr ysgol. Y nifer gofynnol yw rhieni 10% o'r disgyblion cofrestredig neu rieni 30 o ddisgyblion cofrestredig, pa un bynnag sydd leiaf. Mae hyn yn golygu bod y “trothwy” o ran nifer y rhieni yn cael ei gyfrifo gan gyfeirio at nifer y disgyblion cofrestredig. Er enghraifft, efallai y bydd y ddau riant yn llofnodi’r ddeiseb, ond dim ond un plentyn sydd ganddynt yn yr ysgol. Mewn achos o’r fath, bydd y ddwy lofnod yn cyfrif fel un “disgybl cofrestredig” yn unig mewn perthynas â’r trothwy o 10% neu 30. Mewn cyferbyniad â hynny, efallai y bydd un rhiant yn llofnodi’r ddeiseb, ond bydd ganddo dri phlentyn yn yr ysgol. Mae hyn yn golygu y bydd llofnod y rhiant yn cyfrif fel tri “disgybl cofrestredig” mewn perthynas â’r ffigurau sy’n ofynnol er mwyn cyrraedd y trothwy.

1.4. Yn achos ysgolion â mwy na 300 o ddisgyblion, bydd yn haws i rieni fodloni’r gofyniad i gael llofnodion rhieni 30 o ddisgyblion cofrestredig.

1.5 Mae darpariaethau adran 94 yn berthnasol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, ar lefel ysgol unigol yn unig. Nid ydynt yn gymwys i grwpiau o ysgolion sydd wedi ffurfio ffederasiynau.

1.6 Mae adran 94(4) o’r Ddeddf yn mynd yn ei blaen i ddarparu, at ddibenion cyfrifo a gasglwyd y nifer gofynnol o lofnodion ai peidio, bod nifer y disgyblion cofrestredig yn cael ei gyfrifo ar y dyddiad y daw'r ddeiseb i law. Disgwylir y bydd modd i rieni gael gwybodaeth gan swyddfa’r ysgol ynghylch faint o ddisgyblion cofrestredig sydd ar gofrestr ysgol.

### II. Rhaid mai amcan y cyfarfod yw trafod materion yn ymwneud â'r ysgol

1.7 Mae adran 94(5) o’r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid mai amcan y cyfarfod yw trafod mater sy'n ymwneud â'r *ysgol*; rhaid i rieni a chyrff llywodraethu eu bodloni eu hunain bob amser bod amcan y cyfarfod yn bodloni'r gofyniad hwnnw. Rhaid peidio ag ystyried cyfarfod fel ffordd arall o wneud cwyn personol am y driniaeth a gafodd disgybl unigol neu am ymddygiad disgybl

unigol, neu wneud cwyn yn erbyn aelod penodol o'r staff neu o'r corff llywodraethu.

1.8 Rhaid i gyfarfodydd beidio ag ymdrin â materion personol neu unigol sy'n ymwneud â phlentyn neu aelod penodol o staff, a rhaid peidio â thrafod materion o’r fath yn fanwl mewn cyfarfod. Rhaid ystyried bod manylion materion o'r fath yn rhywbeth cyfrinachol, nad ydynt yn addas i’w trafod yn agored. Mae hyn yn golygu na ellir trafod materion yn ymwneud â disgyblu staff na chwynion am staff yn fanwl mewn cyfarfod. Yn yr un modd, rhaid peidio â thrafod materion sy'n ymwneud ag ymddygiad a disgyblu disgyblion unigol.

1.9 Nid yw hyn yn golygu, o reidrwydd, na ellir trafod pob mater sy'n codi yn sgil cwyn neu weithdrefn ddisgyblu mewn cyfarfod â rhieni. Gellir trafod materion o'r fath mewn cyfarfod â rhieni os gellir dangos eu bod yn effeithio ar yr ysgol ac nad oes angen trafod y materion cyfrinachol penodol. Er enghraifft, os gwaherddir aelod neu aelodau o staff dros dro fel rhan o broses ddisgyblu a bod hyn yn arwain at gyflogi athrawon cyflenwi am gyfnod hir, efallai y bydd rhieni yn ystyried bod hyn yn amharu ar addysg y disgyblion. O dan amgylchiadau o'r fath, gellir trafod goblygiadau ac effeithiau *ehangach* gwahardd staff ar y disgyblion a'r ysgol. Fodd bynnag, fel yr esbonnir ym mharagraff 1.7 uchod, nid yw hyn yn golygu y gellir trafod y mater penodol sydd wedi arwain at y disgyblu neu’r gŵyn.

1.10 Hefyd nid oes angen i'r materion sy'n cael eu trafod fod yn bethau sy'n effeithio ar yr ysgol gyfan. Er enghraifft, lle bydd gan ysgol ddosbarthiadau oedran cymysg am ddwy flwyddyn ysgol yn unig, gall rhieni disgyblion y ddwy flynedd honno gyflwyno deiseb i gael cyfarfod i drafod pryderon ynghylch addysg eu plant, er mai dim ond ar ddwy flwyddyn ysgol y mae hyn yn effeithio. Yn yr un modd, os caiff un dosbarth ei roi mewn adeilad dros dro gan greu pryderon ynghylch addysg disgyblion y dosbarth hwnnw, mae hynny hefyd yn addas i'w drafod er nad yw'n effeithio ar yr ysgol gyfan – cyn belled ag y bydd y nifer gofynnol o rieni wedi cyflwyno'r ddeiseb, hy ni fydd unrhyw newid i’r “trothwy” o ran nifer y rhieni y mae angen iddynt lofnodi deiseb i alw cyfarfod er mwyn trafod y naill neu’r llall o’r senarios uchod, er mai ar ran yn unig o’r ysgol y maent yn effeithio.

1.11 Os bydd y llywodraethwr(wyr) a fydd wedi’u dirprwyo i ystyried cais rhieni am gyfarfod yn gwrthod cais o’r fath ar y sail nad amcan y cyfarfod yw trafod materion yn ymwneud â’r ysgol, yna gall rhieni sy’n anghytuno â’r penderfyniad hwnnw ddefnyddio’r weithdrefn gwyno sydd gan yr ysgol i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw. Byddai hynny’n golygu y byddai angen i’r corff llywodraethu cyfan ystyried y mater fel rhan o’r weithdrefn gwyno; pe na fyddai rhieni’n fodlon â’r canlyniad, yna gallent godi eu pryderon gyda’r awdurdod lleol priodol.

1.12 Yn olaf, nid oes yn rhaid i gyfarfod fod y un a elwir am resymau “negyddol”: er enghraifft, mae’n bosibl y bydd rhieni’n cael eu plesio gan fenter darllen newydd a fabwysiedir gan yr ysgol, ac efallai y byddant am alw cyfarfod fel bod egwyddorion y fenter honno yn cael eu harfer ym maes addysgu mathemateg hefyd.

## III. Ni chaiff mwy na thri chyfarfod eu cynnal yn ystod y flwyddyn ysgol yn sgil deiseb gan rieni

1.13 Mae adran 94(6) o’r Ddeddf yn darparu na chaiff mwy na thri chyfarfod eu cynnal o dan adran 94 yn ystod blwyddyn ysgol.

1.14 Yng nghyfraith addysg[1], ystyr blwyddyn ysgol yw’r cyfnod sy'n dechrau gyda'r tymor ysgol cyntaf ar ôl Gorffennaf mewn un flwyddyn galendr ac sy'n gorffen gyda dechrau'r tymor ysgol cyntaf ar ôl y Gorffennaf nesaf. Yn achos y rhan fwyaf o ysgolion, felly, mae'r flwyddyn ysgol yn debygol o redeg rhwng dechrau Medi un flwyddyn tan ddechrau Medi'r flwyddyn ganlynol.

1.15 Er bod y Ddeddf yn glir na ellir cynnal mwy na 3 chyfarfod yn sgil deiseb gan rieni yn ystod blwyddyn ysgol, nid yw hyn yn golygu nad oes modd cynnal cyfarfodydd pellach yn ystod blwyddyn ysgol ar gais un ai'r corff llywodraethu neu grŵp o rieni. Fodd bynnag, mater i ddisgresiwn y corff llywodraethu, yn gyfan gwbl, yw penderfynu a ddylid cynnal cyfarfodydd o'r fath ai peidio.

1.16 Nid yw pob cyfarfod a gynhelir yn ôl disgresiwn y corff llywodraethu yn gorfod bodloni'r gofynion statudol yn adran 94 o’r Ddeddf. Y rheswm am hyn yw nad yw cyfarfodydd o'r fath yn cael eu cynnal yn sgil deiseb gan rieni gan ddefnyddio pwerau'r Ddeddf. Er enghraifft, efallai y bydd corff llywodraethu am barhau i drefnu cyfarfod blynyddol gyda rhieni os bydd llawer o rieni wedi bod yn mynd i gyfarfodydd o'r fath yn y gorffennol. Os bydd corff llywodraethu yn penderfynu parhau i drefnu cyfarfodydd blynyddol â rhieni, nid yw'r cyfarfodydd hynny’n gorfod bodloni'r gofynion statudol yn y Ddeddf, ac ni fyddant yn cyfrif tuag at nifer y cyfarfodydd y gall rhieni wneud cais amdanynt.

## IV. Rhaid sicrhau bod digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol er mwyn gallu cynnal cyfarfod cyn pen 25 diwrnod

1.17 Mae adran 94(7) ac (8) o’r Ddeddf yn darparu mai dim ond os oes digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i allu cynnal cyfarfod cyn pen 25 diwrnod y gellir galw cyfarfod. Os yw ysgol i fod i gau ar gyfer y gwyliau haf ar 15 Gorffennaf, felly, a rhieni yn cyflwyno cais am gyfarfod ar 5 Gorffennaf, nid yw'n bosibl bodloni'r maen prawf hwn gan y bydd llai na 25 o ddiwrnodau ysgol cyn diwedd y flwyddyn ysgol.

1.18 O gofio ystyr 'diwrnod ysgol' at ddibenion y canllawiau hyn (fel y’i hesbonnir ym mharagraff xvii o’r Rhagarweiniad), nid yw penwythnosau, gwyliau banc/cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau HMS yn cyfrif tuag at y cyfnod 25 diwrnod.

1.19 Mae adran 94(9) o’r Ddeddf yn darparu y bydd y cyfnod 25 diwrnod, fel rheol, yn dechrau y diwrnod ar ôl i'r ddeiseb ddod i law. Dim ond diwrnodau ysgol sydd i gyfrif tuag at y 25 diwrnod. (Gweler paragraffau 2.14 a 2.15 yn Adran 2 o’r canllawiau hyn ynghylch pryd y bernir bod deiseb wedi dod i law.)

[1] adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996

1.20 Os bydd rhieni yn gofyn am gyfarfod (Cyfarfod A), rhaid i'r corff llywodraethu drefnu bod cyfarfod A yn cael ei drefnu o fewn cyfnod o 25 diwrnod yn dilyn y cais gan rieni. Fodd bynnag, mae adran 94(10) yn darparu, os bydd rhieni yn gwneud cais am ail gyfarfod (Cyfarfod B) o fewn y cyfnod 25 diwrnod yn dilyn eu cais am Gyfarfod A, na fydd y 25 diwrnod y mae'n rhaid i'r corff llywodraethu drefnu Cyfarfod B o'i fewn yn dechrau tan y diwrnod ar ôl Cyfarfod A. Fel y nodir ym mharagraff 1.17, rhaid bod 25 diwrnod ar ôl yn y flwyddyn ysgol er mwyn gallu cynnal yr ail gyfarfod (Cyfarfod B).

1.21 Er enghraifft, os bydd rhieni yn cyflwyno deiseb am gyfarfod ynghylch pryderon am brinder staff a bod y ddeiseb yn dod i law'r corff llywodraethu ar 9 Ionawr, bydd y cyfnod 25 diwrnod yn dechrau ar 10 Ionawr. Fodd bynnag, os bydd rhieni eisoes wedi cyflwyno deiseb i gael cyfarfod ynghylch amserau sesiynau ysgol, bod y ddeiseb honno wedi dod i law ar 5 Ionawr, a'r cyfarfod cysylltiedig yn digwydd ar 24 Ionawr, yna ni fydd y cyfnod 25 diwrnod ar gyfer y cyfarfod ar brinder staff yn dechrau tan 25 Ionawr. Mae'r enghraifft hon yn cymryd yn ganiataol mai 'diwrnodau ysgol' yw'r holl ddyddiau a nodir.

# 2. Y broses o gyflwyno deiseb

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau ymarferol ar sut gall rhieni fynd ati i gyflwyno deiseb i gynnal cyfarfod gan ddefnyddio adran 94 o’r Ddeddf, a'r materion y mae disgwyl i gyrff llywodraethu eu hystyried wrth wneud yn siŵr bod rhieni’r nifer gofynnol o ddisgyblion cofrestredig wedi llofnodi'r ddeiseb. Mae'n rhoi canllawiau hefyd i gorff llywodraethu ar sut i weithredu pan ddaw deiseb i law, a phryd yr ystyrir bod deiseb wedi dod i law.

## Cyflwyno deiseb o dan adran 94 o’r Ddeddf

2.2 Nid yw'r Ddeddf yn rhagnodi sut i lunio deiseb, y cyfrwng i'w ddefnyddio (ee fformat electronig neu bapur) na dulliau o gasglu'r llofnodion.

2.3 O ran ennyn cefnogaeth a'r broses o gasglu llofnodion, mae rhwydd hynt i rieni ddewis sut i fynd ati. Er enghraifft, efallai y bydd rhieni ysgolion cynradd yn dewis siarad â rhieni eraill wrth gât yr ysgol a gofyn iddyn nhw lofnodi deiseb bapur, lle efallai y bydd yn well gan rieni ysgolion uwchradd anfon e-bost at rieni eraill a/neu sefydlu deiseb electronig ar wefan ar-lein. Bydd rheini am sicrhau eu bod yn parchu safbwyntiau rhieni eraill nad ydynt am lofnodi’r ddeiseb.

2.4 Er mwyn i gorff llywodraethu allu bod yn siŵr bod deiseb ddilys wedi'i chyflwyno o dan adran 94 i drafod mater yn ymwneud â'r ysgol, disgwylir i'r ddeiseb:

- gynnwys datganiad bod rhieni yn arfer eu hawl i wneud cais am gyfarfod gyda'r corff llywodraethu (nid oes yn rhaid cyfeirio'n benodol at adran 94 o’r Ddeddf);
- rhoi crynodeb byr o'r mater(ion) i'w d/trafod a'r rheswm/rhesymau dros alw'r cyfarfod;
- lle bo modd, nodi pa rif yw’r cyfarfod hwnnw yn y flwyddyn ysgol honno. Oherwydd mai 3 chyfarfod yn unig y ceir eu cynnal mewn blwyddyn ysgol, dichon y bydd yn fuddiol i rieni gael pwyso a mesur a ydynt am ddefnyddio cyfle i alw cyfarfod am y mater y bwriedir ei drafod.

2.5 Rydym yn cynghori y dylai'r datganiad, y crynodeb o'r mater(ion) i'w d/trafod, a rhif y cyfarfod gael eu nodi’n glir ar frig y ddeiseb, gyda llofnodion y rhieni oddi tanynt. Bydd hyn yn ei gwneud yn hawdd i rieni weld bod eu hawl i gyflwyno deiseb i alw cyfarfod gyda'r corff llywodraethu yn cael ei harfer, yn ogystal â'r rhesymau dros alw'r cyfarfod, cyn penderfynu a ydynt am lofnodi'r ddeiseb ai peidio. Hefyd, bydd yn helpu i dawelu pryderon posibl nad oedd y rhieni yn glir, efallai, ynghylch pam roedd y cyfarfod yn cael ei gynnal, neu fod y rhesymau dros y cyfarfod wedi'u hychwanegu ar ôl casglu llofnodion y rhieni.

2.6 Bydd y rhieni am sicrhau bod yr ysgol yn cael crynodeb clir o'r materion sydd i'w trafod ar y ddeiseb; yn ogystal â pheidio â bod yn fater y gellir ei ddefnyddio er mwyn galw cyfarfod, gallai dosbarthu deiseb sy'n cwyno am aelod(au) unigol o staff, am aelod(au) o'r corff llywodraethu neu am ddisgybl(ion) gael ei ystyried yn enllibus.

2.7 Gellir casglu a chyflwyno'r ddeiseb yn gyfan gwbl ar bapur, yn gyfan gwbl ar ffurf electronig, neu drwy gyfuniad o'r ddau (ar yr amod bod y ffurfiau papur ac electronig yn dangos yr wybodaeth a nodir ym mharagraff 2.4 uchod).

2.8 Caiff deiseb ei chasglu a'i chyflwyno ar ffurf electronig os caiff ei chasglu a'i chyflwyno drwy gyfrwng electronig (er enghraifft, ei chasglu drwy wefan neu ar ffurf dogfen Word a anfonir at rieni i'w chwblhau'n electronig a'i hanfon ymlaen wedyn ar ffurf atodiad drwy'r e-bost). Mae'n bosibl casglu deiseb ar ffurf copi caled, ond ei hanfon yn electronig drwy ffacs. Hefyd, gellir casglu deiseb ar fformat electronig (ee ar ddisg cyfrifiadur), ond ei chyflwyno ar ffurf nad yw'n electronig (ee drwy bostio'r ddisg cyfrifiadur neu ei chyflwyno â llaw).

2.9 Y cyfan sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf yw bod y ddeiseb yn cynnwys llofnodion rhieni'r nifer gofynnol o ddisgyblion cofrestredig. Gan fod y trothwy o ran nifer y rhieni sy'n ofynnol er mwyn cyflwyno deiseb yn gysylltiedig â niferoedd y disgyblion cofrestredig, mae'n rhaid nodi enw a dosbarth y disgybl(ion) cofrestredig sy'n blentyn (neu'n blant) i bob llofnodwr. Yn achos deiseb ar ffurf electronig, yn ogystal â theipio eu henw fel "llofnod" a rhoi enw a dosbarth eu plentyn neu eu plant, dylai rhieni hefyd gynnwys cyfeiriad e-bost lle gellir cysylltu â nhw ac sy'n cyfateb i'r cyfeiriad e-bost y maent wedi'i roi i'r ysgol eisoes. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn rhesymol gofyn am yr wybodaeth ychwanegol hon er mwyn sicrhau dilysrwydd pob llofnod. Gall y corff llywodraethu fod yn fodlon wedyn na ddyblygwyd y llofnodion a bod y nifer gofynnol o lofnodion wedi'i gasglu.

## Pan ddaw deiseb i law

2.10 Mae adran 94(1) o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gynnal cyfarfod os:

- daw deiseb i law gan rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol honno yn gwneud cais am gyfarfod;
- bydd y corff llywodraethu yn fodlon bod y gofynion statudol a drafodir yn Adran 1 o'r canllawiau hyn wedi'u bodloni.

2.11 O dan y darpariaethau newydd hyn, felly, rhaid i ddeiseb ddod i law corff llywodraethu cyn y gellir cynnal cyfarfod ar gais rhieni.

*Pwy all dderbyn y ddeiseb?*

2.12 Gan fod y Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r ddeiseb ddod i law'r corff llywodraethu yn hytrach na llywodraethwyr ysgol unigol, mae disgwyl i gyrff llywodraethu ystyried bod deiseb sy'n dod i law clerc y corff llywodraethu neu gadeirydd y corff llywodraethu yn cyflawni'r gofyniad hwnnw. Nid oes rhaid anfon copi o'r ddeiseb at bob un o'r llywodraethwyr. Yn achos deiseb a anfonir yn electronig, fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd

gan y cadeirydd neu'r clerc gyfeiriad e-bost penodol. Os felly, yna bydd yn dderbyniol anfon y ddeiseb yn electronig, "dan ofal" pennaeth yr ysgol, i gyfeiriad e-bost y pennaeth. Yn yr un modd, mae'n bosibl nad yw'n hawdd cael gafael ar gyfeiriad y cadeirydd neu'r clerc. Os felly, mae'n dderbyniol cyflwyno neu anfon deiseb (er enghraifft deiseb bapur neu ddisg) at y corff llywodraethu, y clerc neu'r cadeirydd, "dan ofal" y pennaeth, i gyfeiriad yr ysgol.

2.13 Yn achos deiseb “ar bapur”, dylid anfon y fersiwn wreiddiol o'r ddeiseb[2], yn hytrach na chopi. O gael y fersiwn wreiddiol, bydd yn helpu'r corff llywodraethu hefyd i’w fodloni ei hun bod y llofnodion a gasglwyd yn rhai dilys. Unwaith y bydd ffacs o’r ddeiseb wedi dod i law, gellir ystyried mai dyna’r fersiwn wreiddiol, oni bai bod gan y corff llywodraethu reswm dros amau dilysrwydd y ddeiseb a anfonwyd drwy ffacs. Mewn achos o’r fath, caiff y corff llywodraethu ofyn i gael gweld y fersiwn bapur gyfatebol, a dylid darparu’r fersiwn honno o fewn 48 awr i’r adeg y gwnaed y cais.

*Pryd ystyrir bod deiseb wedi dod i law?*

2.14 Ystyrir bod deiseb (boed ar ffurf electronig neu ar ffurf “copi caled”) wedi dod i law, a'r cyfnod 25 diwrnod wedi dechrau:

- yn achos deiseb a gyflwynir yn electronig (er enghraifft, drwy wefan, neu drwy e-bost neu ffacs), ar yr un diwrnod ag y caiff ei hanfon yn llwyddiannus, os caiff ei hanfon cyn 4pm ar ddiwrnod ysgol. Os nad anfonir deiseb ar ddiwrnod ysgol, neu os caiff ei hanfon ar ôl 4pm ar ddiwrnod ysgol, ystyrir ei bod wedi dod i law ar y diwrnod ysgol nesaf. Rydym yn argymell, lle bo modd, y dylid cadw prawf ei bod wedi'i hanfon yn llwyddiannus (ee prawf bod ffacs wedi'i anfon yn llwyddiannus neu gofnod electronig bod e-bost wedi'i anfon);

- yn achos deiseb (er enghraifft, deiseb bapur neu ddisg cyfrifiadur) a gyflwynir yn bersonol gan riant disgybl cofrestredig yn yr ysgol neu gan gludwr, ar yr un diwrnod ag y caiff ei chyflwyno os yw'n cyrraedd cyn 4pm ar ddiwrnod ysgol. Os na chaiff ei chyflwyno'n bersonol ar ddiwrnod ysgol, neu os yw'n digwydd ar ôl 4pm ar ddiwrnod ysgol, yna ystyrir bod y ddeiseb wedi dod i law ar y diwrnod ysgol nesaf. Os bydd angen prawf ei bod wedi'i chyflwyno, yna efallai y gofynnir i'r rhiant a gyflwynodd y ddeiseb roi gwybod i'r corff llywodraethu am faint o’r gloch y cyflwynwyd y ddeiseb, ar ba ddyddiad neu o dan pa amgylchiadau, neu efallai y gofynnir iddo lofnodi datganiad statudol (a baratoir ar gost y corff llywodraethu) er mwyn tystio i’r wybodaeth honno. Os defnyddir cludwr, rydym yn argymell bod y sawl sy'n comisiynu gwasanaethau'r cludwr yn cael prawf bod y ddeiseb wedi'i chyflwyno;

- yn achos deiseb a gyflwynir drwy'r post gan ddefnyddio'r Post Brenhinol, ar yr ail ddiwrnod ysgol ar ôl postio'r ddeiseb drwy bost dosbarth cyntaf, neu'r pedwerydd diwrnod ysgol ar ôl postio'r ddeiseb drwy bost ail ddosbarth. Rydym yn argymell y dylid gofyn am

[2] Gweler adran 94(1) o’r Ddeddf, sy'n sôn am 'ddeiseb' ('a petition'), yn hytrach na chopi o ddeiseb, yn dod i law corff llywodraethu.

dystysgrif postio wrth ei phostio, er mwyn profi pryd a sut y cafodd y ddeiseb ei phostio a bod yr ysgol yn cofnodi pryd y cyrhaeddodd. Os oes tystiolaeth gadarn i'r ffaith nad yw'r Post Brenhinol yn cynnig gwasanaeth arferol (er enghraifft, oherwydd streic neu dywydd eithafol), yna mae disgwyl i gyrff llywodraethu a rhieni ddefnyddio'u synnwyr cyffredin i gyfrifo pryd i ystyried bod deiseb wedi dod i law. Bydd hyn yn golygu cyfrifo nifer y diwrnodau ysgol y gellir dweud yn rhesymol eu bod wedi'u colli yn sgil y problemau gyda gwasanaeth y Post Brenhinol.

2.15 Yn achos deiseb a gyflwynir yn rhannol yn electronig ac yn rhannol yn bersonol neu drwy'r post, nid ystyrir bod y ddeiseb wedi dod i law tan i ddwy ran y ddeiseb ddod i law yn unol â chanllawiau paragraff 2.14. Er enghraifft, os cyflwynir deiseb yn rhannol drwy ffacs ac yn rhannol ar ddisg galed drwy bost ail ddosbarth, nid ystyrir bod y ddeiseb wedi dod i law, ac ni fydd y cyfnod 25 diwrnod y mae'n rhaid trefnu cyfarfod o'i fewn yn dechrau tan i'r rhan a gyflwynir drwy ffacs gael ei hanfon yn llwyddiannus **a** than y pedwerydd diwrnod ar ôl postio'r rhan o'r ddeiseb sydd ar ffurf disg galed.

2.16 Amgaeir yn Atodiad A siart llif sy'n dangos y broses ddeisebu. Bwriedir iddo fod o gymorth i rieni, yn bennaf, ond mae'n bosibl y bydd llywodraethwyr ysgol yn ei gael yn ddefnyddiol hefyd.

# 3. Rhoi rhybudd am gyfarfodydd a sut i'w cynnal

3.1 Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau i gyrff llywodraethu ar sut i roi rhybudd am gyfarfod i holl rieni'r disgyblion sy'n gofrestredig yn yr ysgol, i'r pennaeth ac unrhyw unigolion eraill y mae'r corff llywodraethu am eu gwahodd. Mae hefyd yn ymdrin â'r cyfarfod ei hun, a sut y dylai'r corff llywodraethu gynnal y cyfarfod hwnnw.

## Sut dylai corff llywodraethu fynd ati i roi rhybudd am gyfarfod?

3.2 O dan adran 94(12) o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu roi gwybod i rieni'r holl ddisgyblion sy'n gofrestredig yn yr ysgol am ddyddiad y cyfarfod a'r materion a fydd yn cael eu trafod ynddo. Hefyd rhaid i'r rhybudd fod yn ysgrifenedig, a dylid ei roi mor fuan ag sy'n rhesymol ar ôl i'r ddeiseb sy'n gofyn am gyfarfod ddod i law'r corff llywodraethu. (Mae Adran 1 o'r canllawiau hyn yn ymdrin â'r gofynion statudol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y ceir galw cyfarfod o dan adran 94).

*Sut mae rhoi rhybudd am gyfarfod?*

3.3 Dylid rhoi rhybudd ysgrifenedig sy'n cynnwys dyddiad, lle ac amser y cyfarfod, ynghyd â'r materion sydd i'w trafod, ar bob hysbysfwrdd yn yr ysgol, ac mewn lleoedd amlwg (ee postyn gât) wrth ymyl pob allanfa o dir yr ysgol. Yn ogystal â hynny, dylid anfon llythyr ysgrifenedig at rieni'r holl ddisgyblion sy'n gofrestredig yn yr ysgol. Rhaid i'r llythyr hwnnw gynnwys yr un wybodaeth, a dylai gael ei anfon drwy law'r disgybl cofrestredig neu'n electronig, p'un bynnag yw'r dull cysylltu y cytunwyd arno gyda'r rhieni.

3.4 Os oes un, rhaid diweddaru gwefan yr ysgol i ddangos dyddiad, lle ac amser y cyfarfod, ynghyd â'r materion a fydd yn cael eu trafod. Disgwylir i'r ddolen at y manylion hyn gael ei dangos mewn lle amlwg ar hafan y wefan.

3.5 Mae adran 94(11) yn darparu y dylai cyfarfod, y cyflwynwyd deiseb i'w gynnal o dan y Ddeddf, fod yn agored i'r pennaeth ac i unigolion eraill y mae'r corff llywodraethu am eu gwahodd, yn ogystal â rhieni'r holl ddisgyblion sy'n gofrestredig yn yr ysgol. Felly, disgwylir i'r pennaeth a'r holl unigolion a wahoddir i'r cyfarfod gan y corff llywodraethu gael rhybudd, naill ai drwy'r post dosbarth cyntaf neu'n electronig (ee e-bost neu ffacs), sy'n cynnwys dyddiad, lle ac amser y cyfarfod, ynghyd â'r materion i'w trafod.

3.6 Ni cheir codi tâl am ddarparu gwybodaeth i unrhyw un mewn perthynas â dyddiad, lle ac amser y cyfarfod a'r materion i'w trafod, p'un a yw'r wybodaeth honno'n cael ei rhoi o ganlyniad i'r canllawiau hyn ai peidio.

*Cyfnod y rhybudd*

3.7 Mae adran 94(12) o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig am ddyddiad y cyfarfod a'r materion a fydd yn cael eu trafod cyn gynted ag y bo'n rhesymol ar ôl i'r ddeiseb ddod i law'r corff llywodraethu. O dan amgylchiadau arferol, mae Llywodraeth Cymru yn

disgwyl na ddylai gymryd mwy na 3 neu 4 diwrnod ysgol i gorff llywodraethu ei fodloni ei hun bod y llofnodion ar y ddeiseb yn ddilys, bod y gofynion statudol a nodir yn Adran 1 o’r canllawiau wedi eu bodloni a bod yn rhaid cynnal cyfarfod.

3.8 Cydnabyddir bod adran 94 yn ei gwneud yn ofynnol cynnal cyfarfod cyn pen cyfnod o 25 diwrnod, p'un a yw'r cyfnod hwnnw'n dechrau ar y diwrnod ysgol ar ôl i'r ddeiseb ddod i law neu'r diwrnod ysgol ar ôl cynnal cyfarfod yn seiliedig ar ddeiseb arall o dan adran 94 (gweler paragraffau 1.17 - 1.21 yn Adran 1 i gael rhagor o fanylion). Gan na ddylai gymryd mwy na 3 neu 4 diwrnod i gorff llywodraethu ei fodloni ei hun y dylid cynnal cyfarfod, anogir cyrff llywodraethu i roi oddeutu 10 diwrnod llawn o rybudd i bob parti, yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i'r holl ofynion ynghylch rhoi rhybudd a nodir ym mharagraffau 3.3 - 3.5 gael eu bodloni.

3.9 Os bydd penaethiaid ac unigolion eraill y mae'r corff llywodraethu am eu gwahodd yn cael rhybudd am y cyfarfod drwy’r post dosbarth cyntaf yn hytrach nag yn electronig, wedyn ystyrir bod y llythyrau sy'n cynnwys y rhybudd am y cyfarfod yn cyrraedd ar yr ail ddiwrnod ysgol wedi'r dyddiad postio. O ganlyniad, ni fyddai'r cyfnod o 10 diwrnod o rybudd yn dechrau tan y diwrnod ysgol ar ôl y diwrnod yr ystyrir bod y llythyrau wedi cyrraedd. Er enghraifft, os bydd llythyrau yn cael eu hanfon drwy'r post dosbarth cyntaf ar ddydd Llun, ystyrir y bydd y llythyrau’n cyrraedd ar y dydd Mercher yr un wythnos, ac wedyn bydd y cyfnod o 10 diwrnod o rybudd yn dechrau ar y dydd Iau (cyn belled â bod yr holl ddiwrnodau'n ddiwrnodau ysgol).

3.10 Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gallai fod amgylchiadau prin pan na fydd yn bosibl i gorff llywodraethu roi rhybudd am gyfarfod sy'n 10 diwrnod ysgol llawn. Gallai fod achlysuron prin pan fyddai angen mwy na 3 neu 4 diwrnod i gorff llywodraethu ei fodloni ei hun bod y gofynion statudol yn Adran 1 o’r canllawiau hyn wedi eu bodloni, er enghraifft, am fod rheswm i gredu bod rhai o'r llofnodion ar y ddeiseb wedi eu dyblygu. Gallai'r amser ychwanegol y mae ei angen ar gorff llywodraethu i ganiatáu iddo gysylltu â rhieni i sicrhau nad oes llofnodion wedi eu dyblygu olygu na all roi rhybudd am gyfarfod sy'n 10 diwrnod ysgol llawn, gan gydymffurfio ar yr un pryd â'r gofyniad statudol bod yn rhaid cynnal cyfarfod cyn pen 25 diwrnod.

3.11 Ym mhob achos, rhaid cydymffurfio â'r cyfnod o 25 diwrnod a nodir yn adran 94 o’r Ddeddf. Os bydd rheswm da pam na ellir rhoi'r rhybudd 10 diwrnod ysgol llawn, gan fodloni'r gofyniad ynghylch y cyfnod o 25 diwrnod, wedyn gallai cyfnod byrrach o rybudd fod yn dderbyniol. Fodd bynnag, os rhoddir cyfnod byrrach o rybudd, rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod ganddo resymau digonol i gyfiawnhau’r penderfyniad. Yn ogystal, rhaid i'r corff llywodraethu fod yn barod i egluro'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad hwnnw wrth y rhieni. Mae'n bosibl hefyd y byddai galw ar y corff llywodraethu i gyfiawnhau ei resymau dros roi cyfnod byrrach o rybudd, pe bai'r penderfyniad hwnnw’n cael ei herio o dan y gyfraith. Mae'n arfer da sicrhau bod tystiolaeth ddigonol i ategu rhesymau o'r fath.

## Cynnal cyfarfod

3.12 Nid yw adran 94 o'r Ddeddf yn rhoi sylw i sut y dylai'r cyfarfod gael ei gynnal yn ymarferol. Fel gyda chyfarfodydd eraill y corff llywodraethu sy'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn, bydd y corff llywodraethu yn gallu darparu ei weithdrefnau ei hun ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir ar gais rhieni. Byddai'n ddefnyddiol i'r corff llywodraethu lunio gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cynnal cyfarfod o'r fath.

3.13 Ni ddylai'r 'weithdrefn' honno fynd yn groes i'r canllawiau hyn oni bai bod gan y corff llywodraethu ddigon o gyfiawnhad dros wneud hynny. Fel gydag achosion eraill lle na ddilynir y canllawiau hyn, mae'n arfer da sicrhau bod tystiolaeth ddigonol i ategu unrhyw resymau dros beidio â dilyn y canllawiau.

3.14 Fel man cychwyn, awgrymir y dylai'r weithdrefn roi sylw i faterion megis:

- pwy fydd yn cadeirio'r cyfarfod;
- y cworwm gofynnol ar gyfer cyfarfodydd (ar gyfer rhieni ac ar gyfer llywodraethwyr). Disgwylir y dylai'r cworwm ar gyfer rhieni fod yn gyfran o nifer y rhieni sydd wedi llofnodi'r ddeiseb;
- pwy fydd yn cymryd nodiadau yn y cyfarfod (yn ddelfrydol, y clerc i'r corff llywodraethu fyddai'n gwneud, ond nid yw hynny'n bosibl bob amser);
- beth fydd y drefn i rieni gael siarad yn y cyfarfod, ynghyd ag unrhyw drefniadau pleidleisio. (Disgwylir y bydd cynrychiolwyr y rhieni yn cael sairad yn y cyfarfod bob amser);
- yr wybodaeth y dylid ei hanfon at yr holl lywodraethwyr cyn y cyfarfod. Gwneir yr awgrym olaf yn bennaf gan mai dim ond at y corff llywodraethu y mae angen anfon deiseb, ac nad oes angen ei hanfon at bob llywodraethwr yn unigol (gweler paragraff 2.12 o'r canllawiau hyn). Felly, mae'n bwysig bod pob aelod o'r corff llywodraethu'n cael gwybod yn llawn am bryderon y rhieni sydd wedi cyflwyno'r ddeiseb, a'u bod yn cael copïau o'r ddeiseb mewn da bryd cyn y cyfarfod;
- y camau i'w cymryd yn dilyn cyfarfod pe bai'r rhan fwyaf o rieni o blaid rhoi sylw pellach i unrhyw faterion a drafodwyd, a bod y corff llywodraethu yn penderfynu bwrw ymlaen â'r materion hynny. Gallai'r camau hynny gynnwys ysgrifennu at bob rhiant (nid dim ond y rheini a oedd yn bresennol yn y cyfarfod), trafod materion gyda'r pennaeth neu gynnal cyfarfod pellach. (Os bydd y corff llywodraethu'n penderfynu cynnal cyfarfod pellach, ni fydd angen ail ddeiseb er mwyn gwneud hynny). Gall y corff llywodraethu hefyd ysgrifennu at y rhieni ynghylch canlyniad y cyfarfod hyd yn oed os nad yw'r rhan fwyaf o'r rhieni o blaid bwrw ymlaen â'r materion a drafodwyd, neu os yw'r corff llywodraethu'n penderfynu peidio â symud materion yn eu blaenau.

3.15 Er bod adran 94 yn darparu bod rhieni'n cael cyflwyno deiseb yn gofyn am gynnal cyfarfod i drafod mater sy'n ymwneud â'r ysgol, caiff y corff llywodraethu ychwanegu at y materion i'w trafod yn y cyfarfod, cyn belled â bod y materion sy'n cael eu hychwanegu yn uniongyrchol berthnasol i'r materion y mae'r ddeiseb yn seiliedig arnynt. Rhaid i’’r corff llywodraethu beidio ag ychwanegu at agenda’r cyfarfod unrhyw faterion nad ydynt yn gysylltiedig â’r rheini sydd ar y ddeiseb. Er enghraifft, gallai rhieni gyflwyno deiseb sy'n ymwneud â materion sy'n codi o bryderon bod y ddarpariaeth cinio ysgol yn annigonol. Gallai'r corff llywodraethu ychwanegu mater at agenda'r cyfarfod i drafod a ddylid cael gwared ar beiriannau sy'n gwerthu byrbrydau “afiach” oddi ar safle'r ysgol, ac a ddylai'r ysgol fod yn “ysgol sy'n bwyta'n iach”. NI ddylai’r corff llywodraethu ychwanegu mater sy’n ymwneud â newid amserau’r diwrnod ysgol.

3.16 Fodd bynnag, pe bai corff llywodraethu'n dymuno ychwanegu at agenda'r cyfarfod yn y ffordd hon, byddai’n rhaid iddo gynnwys unrhyw faterion ychwanegol i’w trafod ym mhob rhybudd am y cyfarfod a anfonir at y rhieni, y pennaeth ac eraill, yn ogystal â’u cynnwys yn y rhybuddion a roddir ar hysbysfyrddau'r ysgol, wrth allanfeydd safle'r ysgol ac ar wefan yr ysgol (gweler paragraffau 3.3 - 3.5 yn adran 3 o’r canllawiau ar sut y dylid rhoi rhybudd am gyfarfod o dan adran 94). Dylid nodi hefyd ym mhob llythyr a phob rhybudd mai'r corff llywodraethu yw awdur y materion sy'n cael eu hychwanegu.

3.17 Ceir ystyried bod cyfarfod a gynhelir o ganlyniad i ddeiseb o dan bwerau adran 94 yn gyfarfod a gynhelir yn lle cyfarfod blynyddol â rhieni. O’r herwydd, nid yw'n briodol i'r corff llywodraethu ddirprwyo'r gwaith o gynnal y cyfarfod hwnnw.

# 4. Rhoi gwybod i rieni am eu hawl i gyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod o dan adran 94

4.1 Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau i gyrff llywodraethu ar sut i sicrhau bod rhieni'n gwybod am eu hawl i gyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod o dan adran 94 o'r Ddeddf.

## Yr wybodaeth am adran 94 o'r Ddeddf y dylid ei rhoi i rieni

4.2 O gofio y gellid ystyried bod adran 94 yn disodli'r gofyniad i gynnal cyfarfod blynyddol â rhieni, disgwylir i gyrff llywodraethu sicrhau bod y rhieni'n gwybod am eu hawl i gyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod o dan yr adran honno.

4.3 Disgwylir i'r corff llywodraethu roi gwybod i rieni'r holl ddisgyblion sy'n gofrestredig yn yr ysgol am hawl y rhieni i gyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod o dan adran 94. Gellir gwneud hynny drwy roi llythyrau papur i'r disgyblion eu rhoi i'w rhieni. Gellir hefyd anfon y llythyrau yn electronig os bydd gan ysgol gyfeiriad e-bost y rhieni unigol, a bod yr ysgol yn gwybod bod y rhieni'n fodlon iddi gyfathrebu â nhw drwy'r e-bost. Amgaeir yn Atodiad B enghraifft o lythyr i'w anfon at rieni i roi gwybod iddynt am eu hawl i alw cyfarfod. Dylid anfon llythyr o'r fath at rieni erbyn diwedd mis Hydref ym mhob blwyddyn ysgol.

4.4 Yn ogystal â rhoi gwybod i rieni am eu hawl i ofyn am gyfarfod i rieni, awgrymir hefyd y dylai'r llythyrau gynnwys:

- disgrifiad cryno o'r 4 amod statudol y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw cyn bod yn rhaid i gorff llywodraethu alw cyfarfod. Mae'r gofynion statudol perthnasol yn cael eu trafod yn fanwl yn adran 1 o'r canllawiau;
- cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost i'r rhieni allu anfon deisebau atynt; a
- manylion y ddolen electronig at y canllawiau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru.

4.5 Mae'r disgwyl bod rhieni'n cael eu hatgoffa'n flynyddol am eu hawl i ofyn am gyfarfod o dan adran 94 yn ychwanegol at unrhyw ofynion statudol eraill a allai olygu ei bod yn ofynnol cyhoeddi'r hawl hon.

4.6 Disgwylir i gyrff llywodraethu barhau i gyfathrebu ac ymwneud â rhieni drwy gydol y flwyddyn ysgol. Ni ddylai rhoi gwybod i rieni am eu hawl i gyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod lesteirio na disodli'r dulliau cyfathrebu a sefydlwyd rhwng rhieni a'r corff llywodraethu; dylid mynd ati i annog rhieni i fod yn gysylltiedig â'r broses o redeg ysgol eu plant.

# Atodiad A: Canllaw i'r broses cyflwyno deiseb

Ai'r rheswm dros ofyn am gyfarfod gyda'r corff llywodraethu yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol?

**Ie**

**Nage**

Ni ellir cynnal cyfarfod

Ystyriwch nifer y disgyblion cofrestredig y bydd yn rhaid i'w rhieni lofnodi'r ddeiseb. Os oes llai na 300 ar gofrestr yr ysgol, yna rhaid i rieni o leiaf 10% o'r disgyblion cofrestredig lofnodi'r ddeiseb. Os oes mwy na 300 ar gofrestr yr ysgol, yna rhaid i rieni o leiaf 30 o'r disgyblion cofrestredig lofnodi'r ddeiseb.

Erbyn yr adeg y dylid cynnal y cyfarfod, a fydd 3 chyfarfod arall o'r fath wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn ysgol?

**Bydd**

Ni ellir cynnal cyfarfod

**Na fydd**

Erbyn yr adeg yr anfonir y ddeiseb at y corff llywodraethu ac erbyn yr adeg yr ystyrir ei bod wedi dod i law, a fydd o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol (neu os bwriedir cynnal cyfarfod arall yn y cyfamser, o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl y cyfarfod hwnnw)?

**Na fydd**

Ni ellir cynnal cyfarfod

**Bydd**

4. Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'n glir ar frig y ddeiseb:
   - Bod rhieni yn arfer eu hawl i ofyn am gyfarfod gyda'r corff llywodraethu;
   - Y rheswm(rhesymau) dros ofyn am gyfarfod, a'r mater(ion) i'w d/trafod; ac
   - Os oes modd, ai hwn fydd y cyfarfod cyntaf, yr ail gyfarfod neu'r trydydd cyfarfod yn ystod y flwyddyn a alwyd gan rieni gan arfer eu hawl i ofyn am gyfarfod (nid oes yn rhaid cynnwys yr wybodaeth hon).

Anfonwch y ddeiseb at rieni i'w llofnodi

Yn achos deiseb ar bapur, a yw'r nifer gofynnol o rieni disgyblion cofrestredig wedi llofnodi'r ddeiseb ac wedi rhoi enw(au) a dosbarth(iadau) eu plentyn neu eu plant? Yn achos deiseb electronig, yn ogystal â'r nifer gofynnol o rieni y mae angen iddynt deipio eu henw fel 'llofnod' a rhoi enw(au) a dosbarth(iadau) eu plentyn neu eu plant, dylid hefyd roi cyfeiriad e-bost lle gellir cysylltu â nhw ac sy'n cyfateb i'r cyfeiriad e-bost sydd gan yr ysgol ar eu cyfer.

Anfonwch y ddeiseb at y glerc neu gadeirydd y llywodraethwyr yn y cyfeiriad post neu'r cyfeiriad electronig a roddir i rieni yn y llythyr sy'n rhoi gwybod iddynt em eu hawl i ofyn am gyfarfod (Atodiad B)

# Atodiad B: Eich hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol

Roedd yn arfer bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Cafodd y gofyniad hwnnw ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder iddyn nhw.

Os yw rhieni am arfer eu hawliau dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd angen bodloni 4 gofyniad:

**1. Bydd angen i rieni gyflwyno deiseb o blaid cynnal cyfarfod.**

Bydd angen i rieni o leiaf[3] <u>10% o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol/30 o ddisgyblion cofrestredig</u> lofnodi'r ddeiseb. Yn achos deiseb ar bapur, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig, yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os yw'r ddeiseb yn un electronig, bydd angen i riant 'lofnodi' drwy deipio ei enw a bydd rhaid rhoi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob rhiant sy'n 'llofnodi'r' ddeiseb electronig.

<u>[4] Roedd [*nodwch nifer y disgyblion cofrestredig*] o blant wedi'u cofrestru gyda'r ysgol hon ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon. Gallwch gysylltu â swyddfa'r ysgol i gael gwybod yn union faint sydd ar y gofrestr ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.</u>

**2. Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol.**

Ni ellir galw cyfarfod i drafod materion fel cynnydd disgyblion unigol, neu er mwyn gwneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu aelod o'r corff llywodraethu.

Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno am y mater(ion) i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid dangos yr wybodaeth honno'n glir ar frig y ddeiseb, a dylai'r rhieni lofnodi oddi tani.

---

[3] *Dileer yn ôl y gofyn gan ddibynnu ar faint yr ysgol. Os oes gan ysgolion lai na 300 o ddisgyblion, neu os yw'n debygol y bydd ganddynt lai o ddisgyblion na hynny yn ystod y flwyddyn, dylent ddewis yr opsiwn "10%". Dylai ysgolion mwy o faint ddewis yr opsiwn "30". Os oes gan ysgolion oddeutu 300 o ddisgyblion, yna dylid defnyddio*"<u>10% o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol, neu 30 o ddisgyblion cofrestredig, pa un bynnag sydd leiaf".</u>

[4] *Dim ond yn achos ysgolion sy'n debygol o fod â llai na 300 o ddisgyblion neu oddeutu 300 o ddisgyblion ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn ysgol y dylid cynnwys a chwblhau'r paragraff hwn. Dylai ysgolion mwy o faint ddileu'r paragraff hwn.*

**3. Ceir cynnal uchafswm o 3 chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol**

Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni arfer eu hawliau i ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

**4. Rhaid bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol**

Mae'n amod dan y gyfraith fod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan fo'r ddeiseb yn dod i law, a hynny fel y bo modd cynnal y cyfarfod.

Ystyr "diwrnod ysgol" yw diwrnod pan fo'r ysgol yn agored i ddisgyblion: nid yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS).

Dyma'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol:

*5*

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ynghylch sut gall rhieni fynd ati i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu:

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetings-statutory-guidance/?lang=cy

Llofnod

Dyddiad

[5] *Nodwch gyfeiriad post a chyfeiriad electronig.*